**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**10:00 yb, 1 Chwefror 2018**

**Siambr Cyngor, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Robin Williams
Cyng. Kenneth P. Hughes
Cyng. Bryan Owen

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Owain Williams
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. Catrin Wager
Cyng. John Brynmor Hughes

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Dewi Francis Jones | Prif Swyddog Cynllunio (CSYM) |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Siân Wyn Hughes (CG)
Cyng. Nicola Roberts (CSYM)
Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM)

1. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
   Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

3. **MATERION BRYS**
   Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2018 fel y rhai cywir.

5. **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY – DRAFFT CYNTAF – ATODIAD 1, 3, 4 & 8**

Eglurodd Nia Haf Davies bod yr atodiadau yn cynnwys rhannau olaf y Canllaw arfaethedig drafft. Cafodd y Panel gopi o ddrafft cyntaf o gorff y Canllaw ac Atodiad 2, 5, 6 & 7 i'w hystyried yng nghyfarfod y Panel ar 26 Ionawr 2018. Nodwyd nad oedd yr Uwch Dim Arweinyddiaeth (Cyngor Sir Ynys Mon) wedi cwrdd i ystyried y Canllaw drafft eto, ond bod bwriad i'r Tim ei ystyried un fuan ym mis Chwefror.

Eglurwyd bod Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol oherwydd ei fod yn cynnwys copi o Bolisi PS 5, Polisi PS 6 a Pholisi PS 1.

Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr o ddogfennau defnyddiol a gyfeiriwyd atynt yng nghorff y Canllaw, gan roi dolen i wefan lle gellir eu gweld. Nodwyd bod angen ychwanegu "Gweithredu yn Lleol" i'r rhestr.

Mae Atodiad 4 yn cynnwys manylion cyswllt Unedau perthnasol o fewn y ddau Gyngor yn ogystal â mudiadau defnyddiol, e.e. Cynghorau Cymuned a Thref, Comisiynydd y Gymraeg.

Eglurwyd bod Atodiad 8 yn cynnwys y fframwaith bydd rhaid i ymgeiswyr ei ddilyn er mwyn ystyried beth ydi effaith y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg. Oherwydd hynny, disgwylir i adroddiad am weithredu'r fframwaith gofnodi' r wybodaeth berthnasol a chasgliadau'r gwaith. Fe wnaeth Nia atgoffa'r Panel beth ydi'r trothwy a fyddai'n arwain at yr angen am ymgymryd ag asesiad effaith iaith Gymraeg. Nodwyd bod yr Atodiad yn rhoi disgrifiad o beth olygir gyda 'datblygiad mawr' a 'safle ar hap annisgwyl'. Fe wnaeth Nia atgoffa'r Panel byddai'n rhaid i ymgeisydd gael cymorth gan berson sy'n gymwys i ymgymryd â'r gwaith er mwyn sicrhau byddai'r asesiad yn un cynhwysfawr. Ar ôl derbyn yr adroddiad gan yr ymgeisydd byddai'r Swyddog Cynllunio yn ymgynghori gyda swyddog cymwys o fewn y Cyngor. Byddai'r swyddog hwnnw/ honno yn gwirio cynnwys yr adroddiad yn erbyn gofynion y fframwaith a'r dystiolaeth gydnabyddedig sydd ar gael am y gymuned sy'n debygol o gael ei effeithio gan y datblygiad arfaethedig.

Materion a godwyd:

- Atodiad 3 & 4 – awgrymwyd bod angen neges i sicrhau nad yw'r atodiadau yn darparu rhestrau cynhwysfawr. Ni ddylid cymryd yn ganiataol nad oes dogfennau defnyddiol eraill neu swyddogion neu fudiadau eraill dylid ymgysylltu efo nhw;
- Atodiad 8 - Beth olygir gyda 'gwaith bach/ canolig/ mawr';
- Atodiad 8 - A ddylid disgrifio beth olygir gydag 'ardal leol'?
- Atodiad 8 – A ellir cyfeirio at hyfforddiant fydd y sawl a fydd yn cefnogi'r ymgeisydd wedi ei dderbyn ym mharagraff 7 er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth a roddir yn nhabl 5 yng nghorff y Canllaw;
- Atodiad 8 – paragraff 12 – angen bod yn fwy pendant ynglyn â chyflwyno map i ddangos yr ardal ddylanwad. Awgrymwyd byddai dangos canran siaradwyr Cymraeg ar y map yn ddefnyddiol er mwyn darlunio cryfder y Gymraeg.

Ymatebion:

- Derbyn y sylw a chytuno i wneud newidiadau er mwyn gwella eglurder;

- Eglurwyd bod deunydd sydd wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn gwahaniaethu rhwng 'gwaith bach/ canolig/ mawr' ar sail nifer o weithwyr a gyflogir. Cytunwyd i egluro hynny a chynnwys dolen i'r wefan;
- Derbyn y sylw a chytuno i wneud newidiadau er mwyn gwella eglurder;
- Nodi'r sylw a chytuno i wneud newidiadau os fydd trafodaeth gyda swyddogion perthnasol a Mentrau Iaith yn cadarnhau gellir cynnal sesiwn hyfforddiant a/ neu gynhyrchu deunydd hyfforddi priodol;
- Derbyn y sylw a chytuno i wneud newidiadau er mwyn gwella eglurder a sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei gyflwyno.

Penderfyniad:

Yn ddarostyngedig i'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfarfod, bod y Panel yn cefnogi'r cyfeiriad a roddir yn y drafft cyntaf o'r dogfennau a gyflwynwyd.

<u>DIWEDD Y CYFARFOD.</u>